



Y CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL
COFNODION Y CYFARFOD

13:00, 12 Rhagfyr 2018, Ystafell Gynadledda'r Dociau, Pencadlys yr Heddlu

1a. Presenoldeb

Yn bresennol:

Yr Athro Mike McNamee (Cadeirydd)

Yr Athro Duncan Lewis

Dr Harriet Pierpoint

Mr Mike Lewis

Jacqueline Gantley

Joga Singh

Y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards

Y Ditectif Brif Uwcharolygydd Danny Richards

Lee Jones, Pennaeth Staff, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Uwcharolygydd Joanna Maal

Uwcharolygydd Esyr Jones

Y Ditectif Brif Arolygydd Mark Kavanagh

Jacqui Trow

Y Rhingyll Claire Bradbury-Evans

Y Rhingyll Matthew Hicks

Y Ditectif Gwnstabl Sian O'Shea

Graeme Johnston - Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS)

Sarah Mahon (Sylwedydd)

Hannah Jenkins-Jones (Sylwedydd)

Amy Thomas

Yn Cyflwyno Cyfyng-gyngor Moesegol

Y Ditectif Uwcharolygydd Jason Davies

Ymddiheuriadau:

Nicola Williams

Ceri Channon

Y Prif Uwcharolygydd Dorian Lloyd

Nia Brennan

Carol Woodward

Y Ditectif Arolygydd Huw Thomas

Y Rhingyll Sarah Nagle

2. Cofnodion a chamau gweithredu

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Medi 2018 yn gofnod cywir.

Rhif y CG	Cam gweithredu	Perchennog	Statws/Diweddariad
1.	Caiff nodyn cymorth cof ei gyhoeddi o ran ar ddyletswydd/ddim ar ddyletswydd.	Y Prif Uwcharolygydd Edwards	Parhaus. Mae'r Prif Uwcharolygydd Edwards wedi drafftio'r nodyn cymorth cof a chaiff hwn ei osod ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.
2.	Yr Athro McNamee i godi gwaith ar y cyd â'r gwasanaeth ambiwlans yn y Pwyllgor Cenedlaethol. Y Prif Uwcharolygydd Edwards i'w godi hefyd yng Nghyd-grŵp Gwasanaethau Brys Cymru Gyfan.	Y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards/Yr Athro McNamee.	Parhaus. Mae'r Prif Uwcharolygydd Edwards wedi cysylltu â Patrick Rees o'r Gwasanaeth Ambiwllans ac mae'n aros am ateb.
3.	Cytunodd Nicola Williams i wneud rhywfaint o ymchwil i'r deunyddiau polisi a oedd yn bodoli mewn proffesiynau eraill o ran 'cyffwrdd' a'i chyflwyno i'r Pwyllgor.	Nicola Williams	Parhaus. Yr Athro McNamee i gysylltu â Nicola Williams.
4.	Cyflwyno'r cyfyng-gyngor moesegol ynglŷn â swyddog sy'n dal delwedd anwedus ar ei lyfr nodiadau poced electronig i'r Pwyllgor Moeseg Cenedlaethol er mwyn cael rhagor o arweiniad.	Yr Athro McNamee	Parhaus. Dywedodd y Prif Uwcharolygydd Edwards fod hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Prif Gwnstabl Julian Williams, sef yr Arweinydd Cenedlaethol, ac y caiff ei drafod yn y cyfarfod nesaf.
5.	Rhoi'r 'astudiaeth achos go iawn' ar agenda'r cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.	Amy Thomas	Cwblhawyd. Eitem ar yr agenda.
6.	Aelodau i ddarllen yr adroddiad ar Adnabod Wynebau'n Awtomataidd a chaiff yr adroddiad ei gwblhau yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.	Aelodau	Cwblhawyd. Cyflwynwyd yr adroddiad i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
7.	Cyflwyno canlyniadau'r arolwg ciplun o ymwybyddiaeth foesegol swyddogion yr heddlu yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.	Amy Thomas	Parhaus. Caiff canlyniadau arolwg moeseg staff yr heddlu a swyddogion yr heddlu eu crynhoi mewn un adroddiad a'u cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.
8.	Dosbarthu canllawiau ar fynegi diddordeb ynghylch swydd y Dirprwy Gadeirydd. Enwebiadau i'w hanfon at Amy Thomas fel y gellir eu trafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.	Yr Athro McNamee	Cwblhawyd. Eitem ar yr agenda.

3. Cyflwyniad a Chroeso

Croesawodd yr Athro McNamee Graeme Johnston o HMICFRS i'r cyfarfod fel rhan o ymweliadau cipolwg HMICFRS. Croesawodd hefyd y Ditectif Brif Uwcharolygydd Danny Richards, y Pennaeth Troseddau Arbenigol a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf, Sarah Mahon a Hannah Jenkins-Jones a oedd yn y cyfarfod fel sylwedyddion a'r Ditectif Uwcharolygydd Jason Davies a oedd yn y cyfarfod i gyflwyno cyfyng-gyngor moesegol.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol

4a. Troseddwyr Rhyw Cofrestredig – Safbwynt y Dioddefwyr – Y Ditectif Uwcharolygydd Jason Davies

Mae adran 91(f) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 yn rhoi canllawiau deddfwriaethol ar y gofynion hysbysu amhenodol ar gyfer troseddwyr rhyw cofrestredig.

Yn 2012, daeth gorchymyn adfer i rym sy'n galluogi troseddwr rhyw cofrestredig, sy'n destun gofynion hysbysu amhenodol, i wneud cais i'r heddlu adolygu'r gofyniad hysbysu ac felly gael ei dynnu oddi ar system rheoli cofnodion VISOR. Gellir gwneud cais am adolygiad o'r fath ar ôl 15 mlynedd yn achos oedolyn neu 8 mlynedd yn achos plentyn.

Mae'r adolygiad yn rhoi cyfle i ystyried hawliau dynol y troseddwr rhyw cofrestredig os yw'n bodloni gofynion penodol. Mae hefyd yn lleihau'r baich ar reolwyr troseddwr gan roi mwy o amser ac adnoddau iddynt reoli'r risg gyfredol yn fwy effeithiol yn hytrach na'r hyn y gellir ei hystyried yn risg hanesyddol.

Mae'r canllawiau yn nodi nifer o ofynion sy'n berthnasol i reolwyr troseddwr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, asesiad risg cyfredol y troseddwr rhyw cofrestredig, difrifoldeb y drosedd fynegeiol, yr amser sydd wedi mynd heibio ers y drosedd, ymddygiad da, ac oedran y troseddwr ar adeg y drosedd o gymharu ag oedran y dioddefwr. Mae hefyd yn nodi bod angen ymgynghori â chyrrff cyfrifol sy'n ymwneud â'r troseddwr rhyw cofrestredig.

Rhaid i'r broses gael ei hadolygu gan reolwr y troseddwr a'i chadarnhau gan swyddog ar reng Ditectif Arolygydd. Os ceir cefnogaeth, caiff y mater ei gyflwyno i'r swyddog sydd wedi cael awdurdod dirprwyedig gan Brif Swyddog, fel arfer y Ditectif Uwcharolygydd, Amddiffyn y Cyhoedd, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y sawl sy'n gwneud y penderfyniad wrthod rhyddhau'r gofyniad hysbysu sy'n golygu bod yn rhaid i'r troseddwr barhau i hysbysu am wyth mlynedd arall cyn gwneud cais arall, neu gall ryddhau'r gofyniad hysbysu. Os caiff y cais ei wrthod, gall y troseddwr rhyw cofrestredig apelio i'r llys drwy uwchgyfeirio'r achos.

Mae materion clir ac amlwg i'w hystyried mewn perthynas â barn y dioddefwr ar y cais i ryddhau, y mae'n rhaid i Ddirprwy'r Prif Swyddog eu hystyried. Mae adran 91D(i) yn nodi y caiff unrhyw gyflwyniad gan ddiodeffwr y drosedd ei ystyried gan y sawl sy'n gwneud penderfyniad ar y cam adolygu. Mae'r canllawiau yn cydnabod y gallai diodeffwyr fod wedi symud ymlaen â'u bywydau ac y gallai'r ymyriad gan yr heddlu i ofyn am eu barn beri loes iddynt, ond hefyd y gallai rhai diodeffwyr fod yn awyddus i leisio eu barn. Yr elfen hon sy'n peri'r pryderon moesegol mwyaf dyrys.

Mae'r canllawiau yn nodi y dylai pob penderfyniad gael ei wneud yn seiliedig ar yr achos dan sylw ac y gall y sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried barn y diodeffwr, ond nad oes rheidrwydd arnynt i roi eu barn. Mae'r cyfyng-gyngor hwn wedi ysgogi cryn drafodaeth rhwng y sawl sy'n gwneud penderfyniadau a rheolwyr troseddwr ar draws yr heddlu ac er y caiff pob achos ei asesu'n unigol, mae'r gwahaniaeth barn o ran p'un a ddylid cysylltu â'r diodeffwr yn bwnc trafod cyson.

Mae'r newid deddfwriaethol a wnaed yn 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaethau erlyn sefydlu barn y diodeffwyr ar y cam collfarnu a'i chofnodi fel y gellir cyfeirio ati mewn achosion o'r fath yn y dyfodol. Fodd bynnag, dim ond yn 2013 y daeth y gofyniad hwn i rym sy'n golygu y bydd hi'n cymryd degawd arall i Ddirprwy'r Prif Swyddog weld buddiannau'r broses hon.

Y cwestiynau pwysig a ofynnwyd i'r Pwyllgor oedd:

1. Mewn achosion lle caiff gofynion yr adolygiad eu bodloni'n llawn heblaw am yr elfen ymgynghori â'r diodeffwr, a ddylai'r heddlu geisio cysylltu â'r diodeffwr a gofyn am ei farn ar gais y troseddwr rhyw cofrestredig ai peidio?

2. Dylai'r panel bwysu a mesur lles parhaus y dioddefwr, y ffaith y gallai fod wedi dewis dechrau bywyd newydd ac nad yw am gael ei atgoffa o'r gorffennol. Dylid nodi hefyd fod llawer o ddiodefwyr yn dymuno rhoi eu barn mewn achosion o'r fath.

Rhannwyd y drafodaeth ar y mater hwn yn ddwy ran. Roedd y rhan gyntaf yn edrych ar y sefyllfa gyffredinol ac yna achos penodol.

Roedd y pwyntiau cyffredinol allweddol a godwyd yn ystod y drafodaeth fel a ganlyn:

- Ar beth y mae Rheolwr y Troseddwr yn seilio ei argymhelliad (faint o wybodaeth sydd ganddo am amgylchiadau'r dioddefwr a'i ddymuniadau) a pha fath o awdurdod dirprwyol sydd ganddo? Dywedodd y Ditectif Uwcharolygydd Jason Davies fod y canllawiau'n nodi y dylid penderfynu ar hawl y dioddefwr i gael gwybod ar sail yr achos dan sylw.
- Gofynnodd y Pwyllgor pa gamau a allai gael eu cymryd i gysylltu â'r dioddefwr. Dywedodd y Ditectif Uwcharolygydd Jason Davies y byddai camau'n cael eu cymryd i gysylltu â'r dioddefwr wyneb yn wyneb gyda gofal a thosturi ac nid drwy e-bost neu lythyr.
- Gofynnodd y Pwyllgor ai dim ond unwaith y gofynnir am awdurdodiad neu gydsyniad i hysbysu dioddefwyr neu a ofynnir i'r dioddefwr a hoffai gael ei hysbysu am yr achos yn gyson. Nodwyd y gallai barn dioddefwyr ar y mater newid dros amser a holwyd a ddylem roi cyfle arall i ddiodefwyr rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Cadarnhawyd mai penderfyniad un-tro oedd hwn a chodwyd pryderon am y ffaith y gallai barn y dioddefwr newid dros nifer o ddegawdau. Nodwyd hefyd y gallai'r dioddefwr fod wedi bod yn blentyn ar adeg y drosedd (ar adeg pan na allai wneud penderfyniad o'r fath yn gyfreithiol ac y gallai fod yn amhriodol gofyn y fath beth iddo o safbwynt moesegol) ac y dylid rhoi'r dewis hwn iddo unwaith eto ar ôl iddo ddod yn oedolyn. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen ystyried y polisi hwn ymhellach.
- Nodwyd bod rhywfaint o ymchwil ar ddiodefwyr trais domestig wedi awgrymu ei bod yn llesol i ddiodefwyr allu siarad am ddigwyddiad hyd yn oed os nad ydynt am siarad amdano ar y pryd. Nododd yr ymchwil hefyd ei bod yn anarferol i ddiodefwyr ddigio os na ofynnir am eu barn. Dywedodd y Ditectif Uwcharolygydd Jason Davies nad oedd rhai aelodau o staff am beri loes i ddiodefwyr yn ddiangen.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oes unrhyw gyfathrebu rhwng yr heddlu a'r dioddefwr ar ôl i'r achos gael ei gau. Dywedodd y Ditectif Uwcharolygydd Davies y byddai'r heddlu fel arfer yn datgysylltu ar y cam collfarnu. Nododd hefyd y gallai Gofal Tystion chwarae rôl ar ôl y cam cyhuddo.
- Dywedodd y Ditectif Brif Uwcharolygydd Richards fod angen i'r heddlu daro cydbwysedd rhwng canolbwyntio ar y dioddefwr a sicrhau nad yw'n amharu ar breifatrwydd y dioddefwr. Mae'r rhai sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol yn aml yn datgysylltu am eu bod yn teimlo'n sensitif am eu teuluoedd yn dod i wybod ac ati.
- Nodwyd ei bod hi'n bosibl bod asiantaethau eraill yn cadw mewn cysylltiad â'r dioddefwr o hyd, a gofynnwyd a fyddai modd i'r heddlu ddefnyddio gwybodaeth o'r fath ac ati, ar yr amod bod y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn caniatáu hynny.
- Nododd rhai aelodau fod perygl o "ôl-fflachiau" yn y sbectrwm eang o senarios sy'n bosibl fel rhan o anhwylder straen wedi trawma a bod angen edrych ar amrywiaeth o ddigwyddiadau trawma er mwyn canfod effaith unrhyw ymgysylltiad. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r dystiolaeth ymchwil berthnasol yn y maes hwn.
- Gofynnodd aelodau ai swyddog unigol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad hwn ar gam cyntaf y digwyddiad neu a gaiff y penderfyniad ei wneud gan dîm. Dywedodd y Ditectif Uwcharolygydd Davies mai Rheolwr y Troseddwr fyddai'n rheoli'r achos yn bennaf, mewn ymgynghoriad â'r Ditectif Arolygydd. Yna, caiff y mater ei gyflwyno i'r Ditectif Uwcharolygydd yn y pen draw.
- Nodwyd ei bod bob amser yn bosibl y gallai hysbysu'r dioddefwr fod yn ddigwyddiad annymunol sy'n peri niwed i'r dioddefwr. Cydnabuwyd bod plismona wedi newid dros amser a bod gwelliannau wedi cael eu gwneud er mwyn canolbwyntio mwy ar y dioddefwr ac y gall diodefwyr nawr gael cynnig pecyn gofal gyda chwmsela na fyddai wedi cael ei gynnig o'r blaen o bosibl.

Yn ail, cyflwynwyd astudiaeth achos i'r Pwyllgor fel a ganlyn:

- Roedd y troseddwr a'r ddiodefwaig mewn perthynas â'i gilydd yn ystod eu harddegau.
- Yn sgil amheuan bod y ddiodefwaig wedi bod yn anffyddlon, gyrrodd y troseddwr y ddiodefwaig i leoliad anghysbell lle wnaeth fygwth ei lladd, cyn ei threiso'n weiniol ac yn rhesul.
- Cafodd y troseddwr ei gollfarnu a'i ddedfrydu i wyth mlynedd yn y carchar. Mae'n destun gofynion hysbysu amhenodol ac wedi'i gynnwys ar y gofrestr troseddwr rhyw.
- Mae'r ddiodefwaig wedi ailbriodi ers hynny ac mae ganddi dri o blant. Maent yn byw yn yr un gymuned â'r troseddwr.
- Pymtheg mlynedd ar ôl i'r drosedd fynegeiol gael ei chyflawni, mae'r troseddwr yn gwneud cais i gael ei dynnu oddi ar y gofrestr troseddwr rhyw.
- A ddylai'r ddiodefwaig gael y cyfle i wneud sylwadau a rhoi ei barn?

Y pwyntiau allweddol gan y Pwyllgor oedd:

- A yw'r swyddog mewn safle o awdurdod sy'n golygu ei fod yn ddirprwy i'r ddiodefwaig? Roedd teimlad bod ymyriad yn fwy tebygol o fod yn weithred tadolaeth (cryf) nad oes cyfiawnhad drosti.
- Yn dybiadol neu'n ddiodyn, dylid parchu hunanreolaeth y ddiodefwaig gan fod hawl ganddi i gael ei hysbysu er na ellir anwybyddu'r potensial i beri niwed. Caiff yr hawl i gael gwybod ei chefnogi gan feini prawf y polisi ei hun. Mae'r pedwerydd maes prawf yn nodi'n glir "Chief of Police must have due regard to any evidence of the victim".
- Serch hynny, roedd cymalau/paragraffau 12 a 13 o'r polisi yn berthnasol hefyd a dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r hawl i gael gwybod:

Paragraff 12:

"We recognise that there are practical difficulties associated with locating existing victims, which will be further complicated by the length of time which will have elapsed since conviction and sentencing. In some cases, this could be 30 years or more. In addition, it is important to remember that many victims will have chosen to rebuild their lives and may not want a reminder of the past. That is why the decision to consult with a victim should be taken by the police, on a case by case basis".

Paragraff 13.

"To reduce these practical difficulties, victims that arose following the changes coming into force will be given the opportunity to register their interest in providing any submission or evidence with the police. Following sentencing of the offender, victims will be informed of their ability to provide a submission in the event of a review being sought; where they choose to do so they will register their interest and provide police with their contact details through the Victim Contact Scheme".

- Roedd cydbwysu'r pryderon hyn yn destun trafod mawr.
- Nid oedd tystiolaeth i gefnogi'r farn yn yr achos hwn y byddai'n anghywir i gysylltu â'r ddiodefwaig?
- O gofio agosrwydd y troseddwr a'r ddiodefwaig, teimlwyd ei bod hi'n broblematig y gallai'r troseddwr a'r ddiodefwaig ddod ar draws ei gilydd yn lleol ac y gallai'r ddiodefwaig ddarganfod ei fod wedi'i dynnu oddi ar y Gofrestr heb i'r heddlu ei hysbysu am hynny. Nodwyd efallai nad yr heddlu yw'r ffordd orau o gyfathrebu â diodefwr bob amser ac y gall fod yn well defnyddio trydydd parti e.e. cymorth i ddiodefwr neu Feddyg os yw'r diodefwr eisoes mewn cysylltiad â'r sefydliad hwnnw (os yw materion diogelu data yn caniatáu hynny).
- Nodwyd bod y pwynt cyswllt cyntaf yn hynod o bwysig. Yn yr achos penodol hwn, fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor fod hawl y ddiodefwaig i wybod yn glir ac yn or-redol. Nododd y Pwyllgor fod angen cymryd gofal o ystyried bod gan y ddiodefwaig dri o blant gyda chyn-bartner a'i bod bellach mewn perthynas newydd. Nodwyd y gallai gael gwybod am y mater drwy ei ffrindiau.
- Nodwyd hefyd fod y ddiodefwaig wedi ymwneud â gwasanaethau'r heddlu deirgwaith yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf am fân droseddau. Roedd yr heddlu felly'n gwybod nad oedd hi'n ymddangos bod gan y ddiodefwaig unrhyw broblemau iechyd meddwl.
- Nodwyd bod gan yr heddlu eiriolwyr annibynnol sy'n gweithio yn y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Mae'r eiriolwyr hyn yn bartneriaid sy'n cydweithio a byddant yn helpu'r diodefwr drwy gydol y broses. Nhw yw'r cyswllt a'r cymorth er eu bod yn annibynnol. Maent yn gymharol newydd ond efallai mai'r rhain sydd bellach yn y sefyllfa orau i roi cymorth i'r unigolyn.
- Nodwyd y byddai'n rhaid i'r eiriolwr gynghori'r ddiodefwaig yn bersonol ac y gallem ni, fel gwasanaeth yr heddlu, gynorthwyo â hyn.

- Yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, nodwyd y byddai'n amhriodol chwilio am neu ymchwilio i fanylion am y ddiodefwraig a'i bywyd, gan mai hi yw'r ddiodefwraig nid y troseddwr.
- Mae'n hollbwysig bod yr heddlu'n gwybod y gallai hyn wneud mwy o niwed na daioni.
- Wrth i'r broses gael ei rhoi ar waith, mae angen ei monitro fel y gallwn ddysgu gwersi ohoni.

4b. Astudiaeth Achos Go Iawn

Cyflwynodd y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards astudiaeth achos go iawn o Heddlu Manceinion Fwyaf. Roedd yr astudiaeth achos yn ymwneud â digwyddiad lle roedd Heddlu Manceinion Fwyaf wedi caniatáu i blentyn 13 oed fynd i gartref pedoffilydd hysbys am ddwy awr fel rhan o ymgyrch cudd. Gofynnwyd i'r tîm gwyliadwriaeth am yr awdurdod i ymyrryd ond cafodd y cais ei wrthod gan oruchwylwyr. Cynhaliodd Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu ymchwiliad i'r achos a chafodd ei gyfeirio'n ôl i'r heddlu er mwyn cynnal gwrandawriad camymddwyn ffurfiol.

Ystyriodd yr Athro McNamee a allai'r Pwyllgor Moeseg Annibynnol ymyrryd yn ystod ymgyrch byw mewn achos o'r fath. Nodwyd y gallai cyfarfod ymateb brys *ad hoc* gael ei drefnu mewn egwyddor gyda nifer lai o aelodau, yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor Moeseg Annibynnol. Serch hynny, mewn achos o'r fath, roedd rhaid gwneud penderfyniad gweithredol mor gyflym fel na fyddai wedi bod yn bosibl defnyddio'r weithdrefn hon.

Y pwyntiau allweddol gan y Pwyllgor oedd:

- Yn gyntaf oll, nid yw'r Pwyllgor yn ymwybodol o ffeithiau llawn yr achos ac felly ni allai lunio gwerthusiadau na chasgliadau clir iawn.
- Fel sy'n digwydd yn aml mewn ymgyrchoedd cudd, nodwyd ei bod hi'n bosibl bod gan yr uwch swyddogion ymchwilio fwy o wybodaeth i'w defnyddio er mwyn gwneud penderfyniad deallus nag sydd gan y sylwedydd ar lawr gwlad.
- Ni wnaeth Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu feirniadu'r uwch swyddogion am y ffordd roeddent wedi cynnal yr ymgyrch. Yn hytrach, beirniadwyd y ffaith nad oedd y weithdrefn wedi cael ei chofnodi'n gywir. Ym marn yr ymchwilyd, cymerwyd y camau gweithredu dan sylw am na chafodd asesiad priodol o risg yr ymgyrch ei gynnal ymlaen llaw.
- Fodd bynnag, roedd gan yr heddlu ddyletswydd gofal tuag at y bachgen 13 oed, heb ystyried difrifoldeb y sefyllfa wlyliadwriaeth ar y pryd.
- Fel rhan o bob ymgyrch gwyliadwriaeth, dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau nodi unrhyw adegau posibl pan allai'r heddlu ymyrryd fel rhan o unrhyw asesiad risg.
- Faint o amser sydd yna i wneud penderfyniad? Beth yw maint y niwed? Dylid asesu maint y niwed a allai ddigwydd pe bai swyddog yr heddlu yn gweithredu mewn ffordd benodol a chofnodi'r rhesymeg.
- Nodwyd bod gan y Pwyllgor amser i adolygu'r achos hwn. Fodd bynnag, gallent adolygu'r achos ar ôl iddo ddigwydd, rhywbeth na allai'r uwch swyddogion ei wneud ar y pryd. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i nodi na ddylid defnyddio'r astudiaeth achos go iawn hon i roi bai ar unrhyw un.

5. Diweddariadau o'r Cyfarfodydd Moeseg

Dywedodd yr Athro McNamee ei fod ef a'r Arolygydd Scott Lloyd wedi mynd i gynhadledd genedlaethol ddiweddar Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar Safonau Proffesiynol a Moeseg yn Stratford upon Avon ar 26 a 27 Tachwedd 2018.

Cafwyd cyflwyniad gan yr Athro McNamee a'r Arolygydd Lloyd yn ystod y cyfarfod ar foeseg Adnabod Wynebau'n Awtomataidd, ac ychwanegwyd sut y mae pwyllgorau moeseg yn ystyried achosion hefyd. Cafodd y cyflwyniad groeso mawr gan y gynulleidfa a chafwyd adborth da. Roedd llythyrau diolch wedi dod i law gan y Prif Gwnstabl Julian Williams, yr Arweinydd Moeseg Cenedlaethol, a'r Prif Gwnstabl Martin Jelly, cyflwynydd y gynhadledd.

Un mater a gododd ar ôl y cyflwyniad oedd y prosesau y gallai swyddogion gwrth-lygredd (er enghraifft) eu defnyddio i fonitro ffonau gwaith symudol yr heddlu. Awgrymwyd y gallai hwn fod yn fater i'r Pwyllgor Moeseg Annibynnol ei ystyried, ond yn gyntaf oll byddai angen ymchwilio ymhellach i'r polisi presennol ac unrhyw ystyriaethau cyfreithiol o ran cydsyniad yn ogystal ag unrhyw faterion eraill yn ymwneud â diogelu data. Dywedodd yr Uwcharolygydd Jones mai dim ond fel rhan o ymchwiliad troseddol (lle mae pwerau perthnasol yr

heddlu yn gymwys) y câi camau o'r fath eu cymryd, nid ymchwiliad i gamymddygiad. Efallai y caiff yr eitem hon ei hystyried yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

6. Rôl y Dirprwy Gadeirydd

Dywedodd yr Athro McNamee mai'r dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb yn rôl Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor oedd 5 Hydref 2018. Roedd Mr Mike Lewis wedi mynegi diddordeb yn y rôl. Cafodd Mr Lewis ei benodi'n Ddirprwy Gadeirydd drwy bleidlais fwyafrifol am gyfnod o dair blynedd.

Dywedodd yr Athro McNamee ei fod bellach yn ei drydedd flwyddyn fel Cadeirydd ac y byddai angen darllen y Telerau Busnes er mwyn gweld a oes angen cynnal pleidlais ar gyfer rôl y Cadeirydd am dair blynedd arall.

Cam gweithredu: Amy Thomas i ddarllen y Telerau Busnes a chysylltu â Nia Brennan mewn perthynas â thymor penodiad Cadeirydd y Pwyllgor.

7. Llywodraethu

Dywedodd yr Athro McNamee y cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod Moeseg Cenedlaethol bod gan rai o Bwyllgorau Moeseg yr heddluoedd eraill gyd-gadeiryddion sy'n cynnwys aelod annibynnol a swyddog sy'n gweithio i Heddlu De Cymru. Dywedodd y Pwyllgor yn wreiddiol y byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gadeirio'n annibynnol, nid ar y cyd, er mwyn sicrhau ei ddilysrwydd. Gofynnodd i'r aelodau am eu barn ynghylch p'un a fyddai'n ddefnyddiol cael dirprwy gadeirydd sy'n swyddog sy'n gwasanaethu neu'n aelod o staff a ph'un a ddylai'r Pwyllgor gael Dirprwy Gadeirydd nad oes ganddo'r un pwerau â'r dirprwy gadeirydd annibynnol ond sydd ag ymrwymiad sefydlog i'r Pwyllgor.

Nododd yr aelodau ei bod hi'n bwysig bod gan y Pwyllgor hwn gysylltiad â'r Grŵp Moeseg Mewnol ac y dylai'r aelod o Heddlu De Cymru, boed yn Ddirprwy Gadeirydd neu'n aelod arall sy'n gwasanaethu, gadeirio'r grŵp mewnol hwn. Nodwyd bod mandad clir yn y Telerau Busnes y dylai fod llwybr adborth a chyfathrebu rhwng y ddau grŵp o fewn Heddlu De Cymru.

Roedd rhai aelodau o'r farn y dylai'r rôl hon gael ei llenwi gan uwch swyddog yr heddlu ond na ddylai'r swyddog hwnnw fod yn Ddirprwy Gadeirydd. Nododd yr aelodau hefyd na ddylai'r person hwn fod yn ei rôl oherwydd ei reng ac y dylai fod ganddo ddiddordeb mewn moeseg.

Dywedodd yr Athro Duncan Lewis fod gan y GIG yn Lloegr staff a oedd yn codi materion moesegol a bod llawer o Ymddiriedolaethau'r GIG wedi penodi staff nad ydynt yn feddygon i ddelio â'r materion hyn.

Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai'r sefyllfa barhau fel y mae gyda'r rôl a gaiff ei chyflawni ar hyn o bryd gan y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards.

Dywedodd Lee Jones mai safbwynt Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau oedd bod Heddlu De Cymru yn dymuno cynnal momentwm gwaith caled y Pwyllgor a'r hyn y mae wedi ei gyflawni yn barod a'i bod yn bwysig bod natur unrhyw rôl gyswllt yn cael ei chadarnhau'n briodol. Dywedodd fod trafodaethau, adolygiad o weithdrefnau llywodraethu a chyfarfodydd yn cael eu cynnal ar draws yr heddlu ar hyn o bryd. Câi hyn ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Arian ar 13 Rhagfyr 2018.

Cam gweithredu: Lee Jones i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau llywodraethu'r Bwrdd Arian ar 13 Rhagfyr 2018 ac wedi hynny gan eu bod yn effeithio ar waith y Pwyllgor.

Dywedodd yr Athro McNamee y gellid sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn sicrhau bod argymhellion y cyfarfod hwn yn cael eu rhoi ar waith ac adolygu trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor. Caiff y cyfarfod hwn ei gynnal tua diwedd mis Chwefror 2019.

Cam gweithredu: Amy Thomas i anfon e-bost yn gofyn am enwebiadau i eistedd ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gynhelir ganol mis Chwefror 2019.

9. Unrhyw Fater Arall

Cafodd y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards ei longyfarch gan yr Athro McNamee am lwyddo yn ei asesiad PNAC a dymunwyd yn dda iddo ar y Cwrs Rheoli Strategol y byddai'n ei ddilyn.

10. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf

27 Mawrth 2019 am 13:00 yn Ystafell Gynadledda Gerddi Dyffryn ym Mhencadlys yr Heddlu.
Cam gweithredu: Amy Thomas i anfon gwahoddiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Rhif y CG	Cam gweithredu	Perchennog	Statws/Diweddariad
1.	Mae nodyn cymorth cof wedi cael ei ddrafftio o ran ar ddyletswydd/ddim ar ddyletswydd a chaiff hwn ei osod ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.	Y Prif Uwcharolygydd Edwards	Cario drosodd i gyfarfod mis Mawrth 2019.
2.	Yr Athro McNamee i godi gwaith ar y cyd â'r gwasanaeth ambiwlans yn y Pwyllgor Cenedlaethol. Y Prif Uwcharolygydd Edwards i'w godi hefyd yng Nghyd-grŵp Gwasanaethau Brys Cymru Gyfan.	Y Prif Uwcharolygydd Jon Edwards/Yr Athro McNamee.	Cario drosodd i gyfarfod mis Mawrth 2019.
3.	Cytunodd Nicola Williams i wneud rhywfaint o ymchwil i'r deunyddiau polisi a oedd yn bodoli mewn proffesiynau eraill o ran 'cyffwrdd' a'i chyflwyno i'r Pwyllgor. <i>Yr Athro McNamee i gysylltu â Nicola Williams.</i>	Nicola Williams/ Yr Athro Mike McNamee	Cario drosodd i gyfarfod mis Mawrth 2019
4.	Cyflwyno'r cyfng-gyngor moesegol ynglŷn â swyddog sy'n dal delwedd anwedus ar ei lyfr nodiadau poced electronig i'r Pwyllgor Moeseg Cenedlaethol er mwyn cael rhagor o arweiniad.	Yr Athro McNamee	Cario drosodd i gyfarfod mis Mawrth 2019
5.	Caiff canlyniadau arolwg moeseg staff yr heddlu a swyddogion yr heddlu eu crynhoi mewn un adroddiad a'u cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.	Amy Thomas	Cam Gweithredu Newydd
6.	Darllen y Telerau Busnes a chysylltu â Nia Brennan o ran cyfnod penodiad Cadeirydd y Pwyllgor.	Amy Thomas	Cam Gweithredu Newydd
7.	Hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw drafodaethau llywodraethu perthnasol a gynhelir yng nghyfarfod y Bwrdd Arian ar 13 Rhagfyr 2018 ac wedi hynny gan eu bod yn effeithio ar delerau busnes y Pwyllgor.	Lee Jones	Cam Gweithredu Newydd
8.	Anfon e-bost yn gofyn am enwebiadau i eistedd ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gynhelir ganol mis Chwefror 2019.	Amy Thomas	Cam Gweithredu Newydd
9.	Trefnu'r cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2019.	Amy Thomas	Cam Gweithredu Newydd